**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike

**Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a'ch staff cymorth, am ystyried y ddau Fil. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a phobl eraill sydd â diddordeb a wnaeth dreulio amser yn helpu i ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno a'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Senedd yn ystod Ystyriaeth Gychwynnol y Pwyllgor.

Gwnaeth y Pwyllgor chwe argymhelliad i'r Llywodraeth yn ei adroddiad ar y Biliau, ac mae'r llythyr hwn yn rhoi fy ymateb i'r rheini.

**Argymhelliad 1: Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cydsyniad a'r ymgynghoriad gofynnol sy'n angenrheidiol i ddod â'r Bil Cynllunio (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Ymateb: Derbyn

Rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y cydsyniad angenrheidiol ar 20 Tachwedd 2025.

**Argymhelliad 2. Yn ystod y ddadl ar Ystyriaeth Gychwynnol y Biliau, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw welliannau y bydd angen eu gwneud i'r Bil Cynllunio (Cymru) neu'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) o ganlyniad i Fil Cynllunio a Seilwaith Llywodraeth y DU, pe bai'r Biliau'n mynd ymlaen i gyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor**

Ymateb: Derbyn

Mae disgwyl i'r Bil Cynllunio a Seilwaith orffen mynd yn ôl ac ymlaen, y cyfnod 'ping pong' fel y'i gelwir, erbyn toriad Nadolig Senedd y DU. Ond yn amodol ar setlo ar ffurf derfynol y Bil hwnnw, rwy'n rhagweld ar hyn o bryd y bydd angen gwneud 15 o fân welliannau i dair

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodlen i Fil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) os yw'r Senedd yn cytuno y dylai fynd ymlaen fel Bil cydgrynhoi. Ni fydd angen unrhyw welliannau i'r Bil Cynllunio (Cymru).

**Argymhelliad 3. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau nad yw adran 9 o'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys unrhyw newidiadau i gyfraith bresennol ac egluro ei rheswm dros y farn honno**

Ymateb: Derbyn

Cadarnhaf nad yw'r newidiadau drafftio yn adran 9 o Fil Cynllunio (Cymru) yn newid effaith y darpariaethau sy'n cael eu hailddatgan. Tra bod adran 2(1D) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu na ddylai ardal bwrdd cydgynllunio gynnwys unrhyw ran o Barc Cenedlaethol drwy ddefnyddio'r geiriau "shall not", mae testun Saesneg adran 9(1) o'r Bil yn darparu na ddylai gynnwys unrhyw ran o Barc o'r fath drwy ddefnyddio'r geiriau "may not". Effaith y ddau fformiwla yw atal cynnwys Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd byrddau cydgynllunio (er bod pŵer i newid hynny gan reoliadau hefyd). Mae'r defnydd o "may not" yn nhestun Saesneg adran 9(1) yn adlewyrchu arfer drafftio Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol, a nodir ym mharagraffau 3.13 a 3.14 o *Writing Laws for Wales*, o osgoi'r gair "shall" yn Saesneg. Defnyddir y fformiwla "may not" yn gyffredin i gyfyngu ar bwerau ac fe'i ceir mewn llawer man arall yn y Bil, gan gynnwys yn adran 8(2) sy'n gymwys i'r un pŵer.

**Argymhelliad 4. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan randdeiliaid, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ymhellach a all adran 19(9) o'r Bil Cynllunio (Cymru) elwa ar eglurder ychwanegol, a dylai ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio i adrodd ar ei hystyriaeth**

Ymateb: Derbyn

Am y rhesymau a roddwyd mewn gohebiaeth flaenorol ac mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, rwy'n fodlon na fydd adran 19(9) o Fil Cynllunio (Cymru) yn gymwys i gynlluniau a fabwysiadwyd cyn i'r ddarpariaeth y mae'n ei hailddatgan ddod i rym. Fodd bynnag, nodaf ers i'm swyddogion a minnau roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, fod y Pwyllgor wedi cael gohebiaeth gan awdurdod cynllunio arall yn dadlau y dylid gwneud darpariaeth benodol i'r perwyl hwn. Er mwyn datrys y mater hwn, os yw'r Senedd yn cytuno y gall y ddau Fil barhau fel Biliau Cydgrynhoi, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn nodi nad yw'r darpariaethau yn adran 19 o Fil Cynllunio (Cymru), sy'n ymwneud â dod â chynlluniau i ben yn gymwys i gynlluniau datblygu lleol a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol nodi map trywydd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil Cynllunio (Cymru), a thynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i randdeiliaid lywio'r gwaith o ddatblygu is-ddeddfwriaeth.**

Ymateb: Derbyn

Os cânt eu deddfu, bydd y broses arfaethedig o weithredu'r Biliau yn digwydd mewn dau gam ac mae swyddogion yn paratoi i gyhoeddi'r map trywydd ar gyfer pob cam os yw'r Llywodraeth nesaf yn fodlon â'r dull gweithredu arfaethedig.

Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y Pwyllgor, rwy'n hapus i gadarnhau'r dull arfaethedig:

- Bydd y map trywydd ar gyfer cam cyntaf y gwaith yn nodi'r cyfnod gweithredu llawn o 18 mis, gan arwain at gychwyn y Deddfau (fel y byddant erbyn hynny). Mae swyddogion yn gweithio ar gyhoeddi hyn ar ddechrau tymor y Senedd nesaf, os yw'r

Llywodraeth newydd yn fodlon â'r dull gweithredu. Bydd yn cynnwys cyflwyno Offerynnau Statudol Cymru sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â chynllunio, yn ogystal â gwneud darpariaeth newydd ar gyfer diogelu coed. Yn ogystal â hynny, bydd nifer fach o'r offerynnau a ddefnyddir amlaf gan ymarferwyr neu sydd angen diweddariadau sylweddol yn cael eu hailddatgan fel rhan o'r cam gweithredu hwn, gan gynnwys o bosibl Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

- Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar ailddatgan y ddeddfwriaeth sy'n weddill mewn dull graddol ar ôl i'r Biliau gael eu cychwyn. Byddai manylion llawnach (y 'map trywydd') yn cael eu nodi yn rhaglen hygyrchedd y gyfraith y Llywodraeth nesaf sydd i fod i gael ei chyhoeddi yn nhymor y Senedd nesaf.

Rwy'n ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny sydd eisoes wedi helpu i lunio ein cynlluniau, o'u cyfranogiad yn ymgynghoriad gwreiddiol Comisiwn y Gyfraith a arweiniodd at nifer o argymhellion yn ymwneud â newidiadau angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth, hyd at ymgysylltu mwy diweddar ar reoliadau newydd arfaethedig ar gyfer diogelu coed.

Mae swyddogion yn bwriadu cynnal cyfranogiad rhanddeiliaid trwy gydol y cam gweithredu, gan adlewyrchu'r dull a gymerwyd yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil. Pan fydd unrhyw ansicrwydd yn codi wrth ailddatgan is-ddeddfwriaeth, bydd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael eu mewnbwn arbenigol. Os ystyrir unrhyw ddiwygiadau fel rhan o'r broses gydgrynhoi, bydd yr elfennau hynny yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn y ffordd arferol. Wrth gwrs, bydd ymgysylltu ehangach ar raglen waith y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a gweithredu'r Biliau'n ehangach, yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y gwaith hwn.

**Argymhelliad 7. Dylai’r Cwnsler Cyffredinol egluro rôl ddisgwyliedig yr Archifau Cenedlaethol mewn perthynas â chreu a chynnal codau cyfraith Cymru.**

Ymateb: Derbyn

Nid oes gan yr Archifau Cenedlaethol unrhyw rôl wrth greu codau cyfraith Cymru; mae hyn oherwydd mai dim ond y Senedd a Gweinidogion Cymru all sefydlu cod drwy basio deddfwriaeth sylfaenol neu wneud is-ddeddfwriaeth lle mae datganiad ynghylch y ddeddfwriaeth sy'n ffurfio rhan o god o'r fath wedi'i chynnwys.

Yn yr un modd, nid yw'r Archifau Cenedlaethol yn gyfrifol am gynnal codau cyfraith Cymru. Bydd Deddfau'r Senedd ac offerynnau statudol Cymru sy'n ffurfio rhan o God yn cael eu cyhoeddi gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ac, o ganlyniad i Ran 2B o Ddeddf 2019, bydd hyn yn cynnwys eu cyhoeddi ar-lein.

Fel yr eglurwyd yn nhystiolaeth y Llywodraeth i'r Pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Codau ar-lein.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery